

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ddydd Llun, 15 Tachwedd 2021

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Richard Griffiths, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts, P S Rogers (Cadeirydd), John Griffith a Evans

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr G O Jones a Alun Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Derwyn Owen, (Cyfarwyddwr Ymgysylltu – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (JHJ), Rheolwr Sgriwtini (AGD)

(1:00 y. p. tan 1:40 y. p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>1 Datganiad o Ddiddordeb</b>
	Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>2 Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 ac Adroddiad ISA 260</b>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Argymhell i'r Cyngor ei fod yn derbyn y Datganiad o'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2020/21.</li><li>• Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 a'i gyfeirio at y Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ac at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.</li><li>• Nodi Adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2020/21.</li></ul> <p>NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL</p>